Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Practis Deintyddol West End, Llangefni

Dyddiad arolygu: 13 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-8349-1
© Hawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

   Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 7

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 10

5. Y Camau Nesaf .......... 11

6. Methodoleg .......... 12

   Atodiad A .......... 14

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol West End yn 53 Stryd Fawr, Llangefni, LL77 7NA ar 13 Medi 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol West End, Llangefni yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol West End, Llangefni yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Ynys Môn ers Mehefin 2015 pan gymerodd drosodd o Bractis Deintyddol Glyn Derw.  Maent hefyd yn darparu gwasanaethau i gleifion ym Mangor, Caernarfon a Llanfairfechan o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r practis yn rhan o West End Dental Group, sef grŵp annibynnol a lleol o dri phractis deintyddol ar draws gogledd Cymru.

Mae Practis Deintyddol West End yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm o staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, dau therapydd, un hylenydd, un nyrs deintyddol, tri nyrs deintyddol dan hyfforddiant a dau ymgynghorydd gofal cwsmeriaid.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod West End, Llangefni'n darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel i gleifion ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ato.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Safonau ardderchog o gofnodi yng nghofnodion cleifion
- Gweithdrefnau rheoli heintiau a dadheintio ardderchog
- Mae digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac maent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau priodol ar waith i gynnal sganiau pelydr-x yn ddiogel
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw’n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Cynhelir archwiliadau a chyfarfodydd staff yn rheolaidd a chânt eu defnyddio i wella arferion.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

- Darparu deunydd iechyd deintyddol hyrwyddol i gleifion ei ddarllen ac i fynd adref gyda nhw
- Cwblhau asesiadau risg ar gyfer cemegau a gedwir ar y safle

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion yn gadarnhaol ac yn cadarnhau bod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd a dychwelwyd ugain ohonynt. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Rwy'n cael trafferth gyda dannedd gosod newydd ac mae'r practis wedi bod yn hollol gefnogol, calonogol ac amyneddgar – diolch"*
>
> *"Dim sylwadau – mae popeth yn berffaith"*
>
> *"Mae staff bob amser yn gyfeillgar, does dim byd yn ormod o drafferth"*
>
> *"Maen nhw'n wych"*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwnaethom arsylwi ar y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn y practis yn ei fabwysiadu tuag at gleifion. O'r ugain holiadur a gwblhawyd, cadarnhaodd un deg naw claf eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'i dderbyn. Dywedodd un claf wrthym eu bod yn teimlo bod eu hapwyntiad deintyddol diwethaf wedi cael ei ruthro.

Mae gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat gyda staff, a disgresiwn wrth ymdrin â negeseuon ffôn gan gleifion.

<u>Gofal amserol</u>

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol ac o'r holiaduron a gwblhawyd, dim ond tri chlaf oedd wedi profi unrhyw oedi byr. Dywedodd mwy na dau o bob tri o'r cleifion hefyd eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal y tu allan i oriau. Roedd arwydd y tu allan i fynedfa'r adeilad yn rhoi manylion cyswllt argyfwng a darparwyd hyn hefyd ar beiriant ateb y practis.

Cadw'n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.  Arddangoswyd rhestrau prisiau hefyd yn eglur wrth ddesg y dderbynfa. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol o amgylch y dderbynfa a'r mannau aros i cleifion ei ddarllen a mynd adref gyda nhw.

***Yr hyn y mae angen ei wella:***

***Dylid cynnig deunydd hyrwyddo iechyd deintyddol yn y dderbynfa a'r mannau aros ar ffurf posteri a thaflenni.***

Dywedodd 80% o gleifion wrthym fod eu hanghenion ieithyddol yn cael eu diwallu a bod staff y dderbynfa bob amser yn siarad Cymraeg.

Gofal unigol

Roedd ymatebion o holiaduron cleifion yn dangos i ni bod yr holl gleifion yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gyngor am eu triniaeth unigol ac roeddent yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn a bob amser yn teimlo bod croeso iddynt.

Mae'r practis wedi'i leoli dros dri llawr a gall ddefnyddwyr cadair olwyn gael mynediad at y practis ar lefel y llawr daear gyda chymorth; ac mae defnydd ramp yn cael ei drefnu. Mae'r dderbynfa, y man aros ac un ystafell driniaeth ddeintyddol yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Roedd y practis yn arddangos enw a chymwysterau'r holl ddeintyddion yn eglur, ynghyd ag amseroedd agor y practis.

Roedd un toiled deuryw ar gael i'w ddefnyddio gan y cleifion ac roedd wedi ei arwyddbostio'n eglur ac yn amlwg yn lân.

Mae gan y practis weithdrefn ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion a oedd wedi'i harddangos ar un o'r hysbysfyrddau ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.  Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Mae'r practis ar y cyfan yn cadw cofnodion clinigol ardderchog a chynhelir safon uchel o reoli heintiau a phrosesau dadheintio.**

<u>Gofal diogel</u>

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod yr ystafelloedd triniaeth yn amlwg yn lân ac wedi'u cynnal yn dda, er ein bod wedi nodi bod y gorchudd sedd / stôl yn ystafell driniaeth 2 wedi'i rwygo ychydig. Cawsom ein hysbysu gan y practis fod cynllun i adnewyddu ystafell driniaeth 2 ac mae cynlluniau ar waith i ddisodli'r sedd / stôl yn ogystal â disodli'r gorchudd llawr cyfredol gyda llawr cilfwaog.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar yr holl offer trydanol gan sicrhau bod dyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod drwy'r adeilad a gwelsom dystiolaeth o gontract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir ac roedd poster Iechyd a Diogelwch wedi’i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un ohonynt wedi eu gadael mewn mannau cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) fodd bynnag; nid oedd unrhyw asesiadau risg perthnasol ar waith. Mae'n ofynnol o dan ganlalwiau’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bod dalen ddata ac asesiad risg clir ar gael ar gyfer pob cemegyn neu sylwedd peryglus a gedwir yn yr adeilad.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid cwblhau dalenni data ac asesiadau risg ar gyfer yr holl gemegau a gedwir yn yr adeilad.***

Ni welwyd unrhyw asesiadau risg iechyd a diogelwch cyffredinol ar y diwrnod hwnnw; fodd bynnag cafodd y rhain eu hanfon yn syth at AGIC yn dilyn yr arolygiad.

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl ddeintyddion.

Roedd y trefniadau ar gyfer diogelu cleifion a staff wrth i'r offer pelydr-x gael eu defnyddio yn dderbyniol. Canfuom dystiolaeth o archwiliadau diogelwch a chynnal a chadw a phrofi offer.

Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau ansawdd delweddau eto; fodd bynnag, roedd hi'n llai na 6 mis ers i'r clinigwyr ddechrau yn y practis a chawsom ein hysbysu bod archwiliad wedi'i gynllunio ar gyfer mis Hydref 2016. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal bob chwe mis.

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi cael yr holl hyfforddiant perthnasol. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw yn y dderbynfa ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis.

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol ac ardderchog ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM) 01-05. Roedd y man yn amlwg yn lân ac yn rhydd rhag annibendod. Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol a hen sefydledig ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff.

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi cael ei wahanu rhwng y bagiau/cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â’r dull gwaredu cyfredol.

Canfuom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed ac roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwnaethom atgoffa'r practis i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal yn unol â'r canllawiau corff proffesiynol ac felly bod angen adnewyddu hyfforddiant un o'r deintyddion.

Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau neu eu trefnu gan y practis.

Roedd tystiolaeth bod y practis ar y cyfan yn cadw cofnodion clinigol ardderchog, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Adolygwyd sampl o 13 o gofnodion cleifion, a oedd yn cynnwys cofnodion a gwblhawyd gan ddau ddeintydd ac un hylenydd. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod cofnodion gofal cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch y trafodaethau a gynhaliwyd am ddewisiadau o ran triniaethau, a sut ceisiwyd caniatâd gan gleifion. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a lle bo'n ofynnol, cynllun triniaeth yn cael ei roi i gleifion. Mae'r deintydd yn cofnodi bod sgrinio am ganser a chyngor am roi'r gorau i ysmygu ac iechyd y geg yn cael ei roi i gleifion gan y deintydd a'r hylenydd.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda iawn gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol.Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.**

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda. Roedd pob aelod o staff wedi cael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd, arfarniadau staff chwarterol gan gynnwys arfarniadau blynyddol.

Gwelsom fod gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un o'r ymarferwyr deintyddol wedi dod i ben yn ddiweddar. Cytunodd y practis i adnewyddu hwn ar unwaith.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod arwyddion yn arddangos enw a chymwysterau'r deintyddion. Roedd yswiriant indemniad ar waith hefyd.

Gwelsom fod tystysgrif AGIC y deintydd wedi'i harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, nid oedd un o'r tystysgrifau AGIC yn cynnwys y manylion lleoliad cywir ar gyfer un deintydd a chytunodd y practis i fynd i'r afael â hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob tystysgrif AGIC yn gyfredol ac yn cael ei harddangos fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.***

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Edrycom ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Canfuom eu bod yn drylwyr a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Fodd bynnag, bu'n anodd ar adegau lleoli rhai o'r dogfennau a chawsom ein cynghori bod y practis yn bwriadu rhoi sylw i'r broblem drwy gyflwyno safle mewnrwyd sy'n gynnwys pob polisi a gweithdrefn.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol West End, Llangefni yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i’r saith thema weithio gyda’i gilydd.  Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**<u>Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal</u>**




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol West End, Llangefni

## Dyddiad yr arolygiad: 13 Medi 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Dylid cynnig deunydd hyrwyddo iechyd deintyddol yn y dderbynfa a'r mannau aros ar ffurf posteri a thaflenni. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safonau<br>4.2, 5.1 | Byddwn yn nodi'r manylion ynghylch y deunydd yr ydym yn dymuno ei ddarparu, byddwn yn caffael y rhain ac yna'n eu gosod yn y dderbynfa / man aros. | Anthea Goodman | I'w gwblhau erbyn 1 Rhagfyr 2016 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 7 | Dylid cwblhau dalenni data ac asesiadau risg ar gyfer yr holl gemegau a gedwir yn yr adeilad. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.1 | Bydd asesiadau risg Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a dalenni data diweddaredig yn cael eu casglu gan y Rheolwr | Anthea Goodman | 15 Ionawr 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweithrediadau a'u rhoi ar waith. | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod pob tystysgrif AGIC yn gyfredol ac yn cael ei harddangos fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. | Rheoliad 8 | Bydd tystysgrifau cyfredol yn cael eu postio, wrth ddisgwyl ymateb prydlon i geisiadau am dystysgrifau newydd o AGIC gan glinigwyr unigol. | Anthea Goodman | 1 Rhagfyr 2016 |

## Cynrychiolydd y practis:

**Enw (llythrennau bras):** Aaron Ferguson

**Teitl:** Rheolwr Gyfarwyddwr

**Dyddiad:** 8 Tachwedd 2016